Senedd Cymru
**Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Ymweliad y Llywydd â'r Assemblée Nationale du Quebec

## Adroddiad Ymweliad

Mai 2025

Ar 22 Mai 2025, aeth y Llywydd ar ymweliad swyddogol â'r Assemblée Nationale du Quebec ar wahoddiad y Llywydd Nathalie Roy. Daeth y gwahoddiad yn dilyn gohirio'r Ail Uwchgynhadledd Llywyddion Benywaidd, a oedd i fod i gael ei chynnal ar yr un dyddiad, a gwahoddwyd y Llywydd i ddod ar ymweliad i gydnabod y bartneriaeth barhaus rhwng ein dwy senedd. Fel rhan o'r ymweliad, byddai'r Llywyddion yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac yn rhannu diweddariadau ac arfer gorau mewn nifer o feysydd.

## Cynnwys


**1. Gwaith ymgysylltu blaenorol ac sydd ar y gweill....................... 2**

**2. Cwrdd â Llywydd Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick 3**

**3. Rhaglen Seneddol........................................................................ 5**

Cydnabyddiaeth yn y Cyfarfod Llawn ........................................ 6

Llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ................................ 6

Sesiwn waith ar drefn busnes................................................ 8

Gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill........................................... 9

# 1. Gwaith ymgysylltu blaenorol ac sydd ar y gweill

Chwefror 2020 – Dirprwyaeth dan arweiniad y Llywydd o'r Senedd yn mynd i Gynulliad Cenedlaethol Quebec.

Hydref 2023 – Cyfarfod (yng Nghynhadledd CPA Ghana) rhwng dirprwyaeth o'r Senedd (Adam Price AS a Carolyn Thomas MS) a dirprwyaeth o Gynulliad Cenedlaethol Quebec.

Mehefin 2024 – Ymweliad swyddogol â'r Senedd gan y Llywydd Natalie Roy a'i dirprwyaeth.

Tachwedd 2024 - Rhannodd Llywydd Senedd Cymru a'r Llywydd Nathalie Roy lwyfan yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Sydney (De Cymru Newydd), lle traddododd y ddwy ohonynt anerchiadau allweddol ar y pwnc "Cadw Menywod ym Myd Gwleidyddiaeth". Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol rhwng dirprwyaethau'r Senedd a Quebec.

Mehefin 2025 – Gwahoddwyd cynrychiolydd o Gynulliad Cenedlaethol Quebec i gymryd rhan yng Nghynhadledd Ranbarthol BIM CPA, a gynhaliwyd yn y Senedd.

Gorffennaf 2025 – Gwahoddwyd cynrychiolydd o'r Senedd i gymryd rhan yng Nghynhadledd Ranbarthol CPA Canada, a gynhaliwyd yn Quebec.

# 2. Cwrdd â Llywydd Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick

Cyfarfu'r Llywydd â Llywydd Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick, y Gwir Anrhydeddus Francine Landry, a oedd yn Ninas Quebec yn mynychu cynhadledd Llefarwyr Deddfwrfeydd Francophonie, rhwydwaith y mae hi'n ei gadeirio ar hyn o bryd. Y cyfarfod dwyochrog oedd y cyntaf rhwng y ddau Lywydd, ond mae dirprwyaethau o'r Senedd wedi ymweld â'r Cynulliad mewn blynyddoedd blaenorol.

Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick yw'r unig ddeddfwrfa gyfansoddiadol ddwyieithog yng Nghanada (sy'n gweithredu yn Ffrangeg a Saesneg – mae Cynulliad Deddfwriaethol Quebec yn uniaith gan ei fod yn gweithredu yn Ffrangeg yn unig), a thrafododd y Llywyddion eu gweithrediadau dwyieithog fel rhan o'u cyfarfod dwyochrog.



*Y Llywydd a'r Gwir Anrhydeddus Francine Landry, Llywydd Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick*

Mae'r ddwy ddeddfwrfa yn y sefyllfa gymharol unigryw lle mae eu llywyddion a'u penaethiaid llywodraeth yn fenywod – soniodd y Llywyddion am hyn wrth i'w sgwrs ymdrin â rôl menywod etholedig yn eu seneddau priodol. Fe wnaethant hefyd drafod yn fanwl y defnydd o drafodion hybrid mewn busnes seneddol, gyda'r Llywydd Landry yn cymryd diddordeb arbennig yng ngweithrediad hybrid parhaus y Senedd.

Cytunodd y Llywyddion i barhau â deialog yn y maes hwn, gyda'r potensial am sgyrsiau parhaus yng Nghynhadledd Ranbarthol CPA Canada sydd ar ddod, y mae'r Senedd wedi cael gwahoddiad iddi..

# 3. Rhaglen Seneddol

Cafodd y Llywydd groeso cynnes yn yr Assemblée Nationale, a chafodd ei chyfarch gan y Llywydd Nathalie Roy, Aelodau o'r Assemblée Nationale, a gwarchodlu anrhydedd, ochr yn ochr â'r Ddraig Goch yn hedfan uwchben adeiladau'r Cynulliad.



Yn ystod yr ymweliad, cafodd y Llywydd gyfle hefyd i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Assemblee Parliamentaire de la Francophonie, a oedd yn mynychu cyfarfod o Rwydwaith y Seneddwyr Benywaidd. Ymhlith y cynrychiolwyr roedd aelodau o Gynulliad Deddfwriaethol Ontario, Cynulliad Cenedlaethol Senegal, a'r enwog Raquel Sans, Is-Lywydd Senedd Catalwnia, a ymwelodd â'r Senedd yn 2024.



## Cydnabyddiaeth yn y Cyfarfod Llawn

Yn dilyn croeso gan Aelodau o’r Assemblée Nationale yn y neuadd fawr, cafodd y Llywydd gydnabyddiaeth swyddogol ar ddechrau trafodion arferol y dydd, gyda'r Llywydd Roy yn nodi ar gofnod y byddai’r ddwy yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn dilyn y cyfarfod.

Roedd busnes y dydd yn cynnwys cwestiynau ynghylch y portffolio tai ac iechyd. Yn ystod yr ymweliad, cynhaliwyd y trafodion arferol yn hen gartref y Senedd, gan fod gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo yn siambr y Cynulliad.

Bydd y gwaith adnewyddu yn cynnwys newid y trefniadau eistedd i ffurf hanner cylch/pedol, symud i ffwrdd o feinciau sy’n wynebu ei gilydd, ac integreiddio system bleidleisio electronig. Cynhelir y trafodion yn uniaith Ffrangeg, a chaiff cyfraniadau ac ymatebion gan weinidogion eu hamseru.

## Llofnodi’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Daeth y Llywyddion ynghyd eto i lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gerbron rhai Aelodau dethol o'r Cynulliad Cenedlaethol a nifer o swyddogion. Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cydnabod y cyfeillgarwch diweddar a pharhaus rhwng ein dau ddeddfwrfa ac yn cytuno i hyrwyddo datblygiad cysylltiadau dwyochrog ac i gryfhau'r cysylltiadau hynny. Cydnabu'r Llywyddion fod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn mynd y tu hwnt i'r berthynas rhyngddynt ac yn cwmpasu cysylltiadau gwaith rhwng swyddogion ac aelodau ein deddfwrfeydd, nawr ac yn y dyfodol.

Fe wnaethant lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gerbron y Dirprwy Lywydd Sylvie D'Amours MNA, aelod o'r wrthblaid, Sona Lakhoyan Olivier MNA a Marie-Louise Tardif MNA, a fyddai’n mynychu cynhadledd ranbarthol BIMR yng Nghaerdydd ym mis Mehefin eleni, fel sylwedydd rhyngwladol.

Yna ymunodd Marie-Louise Tardif MNA a Sona Lakhoyan Olivier â Llywydd Senedd Cymru a'r Llywydd Roy am ginio swyddogol, lle buont yn trafod diwygiadau yn y ddwy ddeddfwrfa ac yn cymharu gweithrediad trafodion y Cyfarfod Llawn yn y ddwy ddeddfwrfa. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn clywed am y Bwrdd Taliadau Annibynnol, ac roeddent ganddynt ddiddordeb arbennig yn y cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau etholedig a fydd yn cael eu hethol yn etholiad nesaf y Senedd.



## Cyfarfod dwyochrog gyda'r Llywydd Nathalie Roy

Cafodd Llywydd Senedd Cymru wahoddiad gan y Llywydd Roy i lawr y siambr drafod, gan adlewyrchu gwahoddiad sy'n cael ei estyn i bwysigion yn ystod ymweliadau â'r Senedd. O Gadair y Llywydd, buont yn trafod gyda'r clercod weithrediad y trafodion a rôl swyddogion o ran cefnogi'r Llywyddion yn ystod y Cyfarfod Llawn. Dangosodd y clercod y system negeseuon electronig sydd ar waith rhwng y clercod bwrdd a'r Llywydd, a thrafododd y Llywyddion sut mae sgriptiau'n cael eu gweithredu; eglurodd Llywydd Senedd Cymru y sgript electronig sydd ar gael iddi hi a'r clercod yn ystod cadeirio trafodion Cyfarfod Llawn y Senedd, ac eglurodd y Llywydd Roy fod yn well ganddi gael sgriptiau papur a dangosodd enghraifft o drafodion y bore hwnnw. Yna fe wnaethant gymharu nodiadau ar gadeirio trafodion, gan gynnwys galw Aelodau i siarad a galw Aelodau i drefn pan fo angen.

Yna cynhaliodd Llywydd Senedd Cymru a'r Llywydd Roy gyfarfod dwyochrog ffurfiol i drafod yn fanwl amryw ddiweddariadau gan eu deddfwrfeydd priodol. Rhoddodd y Llywydd Roy grynodeb o nifer o bynciau i'r Llywydd, gan gynnwys cyflwyno creche ar safle'r Cynulliad a gwaith y pwyllgor arbennig ar ieuenctid a'r defnydd o ffonau symudol.

Mae creche wedi bod ar y safle'r Cynulliad ers 2023 ac mae ar gael i'w defnyddio gan Aelodau, staff gwleidyddol, a staff yr Assemblée Nationale, yn ogystal ag aelodau achrededig o'r wasg. Mae'r creche yn gweithio mewn partneriaeth â

gofal dydd cymunedol, ac mae'r oriau'n dilyn busnes seneddol. Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus, daeth y creche yn wasanaeth parhaol ym mis Mehefin 2024. Nododd Llywydd Senedd Cymru fod y cynllun peilot hwn o ddiddordeb arbennig i'r Senedd ar hyn o bryd, yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Senedd y Dyfodol yn y maes hwn a'r drafodaeth barhaus ynghylch cyflwyno cyfleusterau creche ym Mae Caerdydd. Esboniodd y Llywydd Roy a swyddogion fod y creche yn cael ei ddefnyddio gan oddeutu 10 o unigolion ar hyn o bryd, a bod 'ystafell deulu' heb oruchwyliaeth ar y safle hefyd i blant hŷn (tua 10 oed a hŷn) ei defnyddio. Cytunodd swyddogion i rannu mwy o wybodaeth gyda'r Senedd am beilot creche yr Assemblée Nationale.

Yna cyflwynodd y Llywydd Roy waith Pwyllgor Arbennig ar effaith ffonau symudol a sgriniau ar bobl ifanc a'u hiechyd. Dechreuodd y Pwyllgor Arbennig hwn ar ei waith ym mis Medi 2024 a chyhoeddodd ei adroddiad interim ym mis Ebrill 2025. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor gan bobl ifanc ac ymchwilwyr, a chymerodd dystiolaeth mewn sioeau teithiol ar draws ysgolion yn Quebec. Fel rhan o'r adroddiad interim, cafwyd argymhelliad y dylai Llywodraeth Quebec wahardd y defnydd o ffonau symudol, clustffonau a dyfeisiau symudol personol eraill ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd tan ddiwedd gwersi. Dywedodd y Llywydd Roy fod y Gweinidog Addysg bellach wedi deddfu'r argymhelliad drwy gyfarwyddeb weinidogol, i'w weithredu ym mlwyddyn ysgol 2025-26, gyda deddfwriaeth i ddilyn. Cytunwyd y byddai'r adroddiad interim a mwy o fanylion yn cael eu rhannu gyda'r Llywydd, i'w rhannu ymhellach gydag Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru a phwyllgorau'r Senedd.

Yna rhoddodd y Llywydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Llywydd Roy am gynlluniau ehangu Siambr y Senedd a'r paratoadau sydd ar y gweill ar gyfer etholiadau 2026. Roedd hyn yn cynnwys trosolwg o waith Pwyllgor Senedd y Dyfodol a'i adroddiad diweddar. Fe wnaethant hefyd drafod newid Prif Weinidog ers ymweliad y Llywydd Roy â Chymru y llynedd, gan fyfyrio ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan bleidiau gwleidyddol o ran rhestrau ymgeiswyr cytbwys o ran rhywedd cyn etholiadau nesaf y Senedd.

## Sesiwn waith ar drefn busnes

Canolbwyntiodd sesiwn waith olaf y dydd ar drefn busnes yn yr Assemblée Nationale. Yma, clywodd y Llywydd gan glercod ynghylch dyrannu amser ar gyfer cwestiynau a gweithrediad pwyllgorau, gan gynnwys gweithrediadau hybrid a dulliau ymgynghori. O ran dyrannu amser ar gyfer cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn, roeddem yn arbennig o awyddus i glywed am yr amser lleiaf sydd ar gael i aelodau meinciau cefn y llywodraeth. Clywsom hefyd am fanylion y

dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd ar gyfer y Pwyllgor Arbennig diweddar, gan gynnwys taith o amgylch ysgolion ar draws chwe rhanbarth a gwrandawiadau cyhoeddus.

## Gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill

Roedd y Senedd yn falch o fod yn cynnal Cynhadledd Rhanbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) CPA eleni, ac roedd wedi estyn gwahoddiad i'r Assemblée Nationale du Quebec i fod yn bresennol fel sylwedydd ac i gyfrannu at sesiynau'r gynhadledd. Cafwyd gwahoddiad cilyddol i Gynhadledd Ranbarthol Canada yr haf hwn, a bydd Dirprwy Lywydd y Senedd, David Rees AS, yn bresennol ynddi.